Senedd Cymru
**Cysylltiadau Rhyngwladol**

# Adroddiad Ymweliad

## Ymweliad Traws-Bwyllgor ag Iwerddon

Rhwng 18 a 20 Medi 2024, aeth dirprwyaeth o aelodau dan arweiniad y Dirprwy Lywydd ar ymweliad rhyngwladol â Dulyn, Iwerddon. Canolbwyntiodd yr ymweliad ar feysydd cydweithredu yn y Cyd-ddatganiad a Chynllun Gweithredu ar y Cyd 2021 i 2025 rhwng Iwerddon a Chymru[1], sef diwylliant, iaith a threftadaeth, hinsawdd a chynaliadwyedd, a masnach, a hefyd Gweithdrefnau Seneddol ac arfer da. Roedd y ddirprwyaeth yn cynnwys aelodau o'r Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, a'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith.

**Dirprwyaeth yr ymweliad:**

- David Rees AS, Dirprwy Lywydd
- Llŷr Gruffydd AS, Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith
- Carolyn Thomas AS, aelod o’r Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith
- Delyth Jewell AS, Cadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol
- Alun Davies AS, aelod o’r Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol
- Luke Fletcher AS, aelod o Bwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig
- Samuel Kurtz AS, aelod o Bwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

[1] Llywodraeth Cymru: Iwerddon-Cymru: Cyd-ddatganiad a Chynllun Gweithredu ar y Cyd 2021 i 2025

Cyfarfu'r ddirprwyaeth â Phwyllgorau cyfatebol yn yr Oireachtas, tîm swyddfa Llywodraeth Cymru yn Nulyn a rhanddeiliaid. Cyfarfu'r Dirprwy Lywydd hefyd â'r Ceann Comhairle a Dirprwy Lefarydd Cynulliad Gogledd Iwerddon. Canolbwyntiodd y cyfarfodydd hyn ar arfer da a chraffu ym meysydd cydweithredu a restrir uchod ac yn y weithdrefn seneddol, gyda nifer o ganlyniadau diriaethol a fydd yn bwydo i mewn i ffrydiau gwaith pwyllgorau a gweithdrefnau.

# Cynnwys


**1. Rhagair y Dirprwy Lywydd ........ 3**

**2. Cysylltiadau rhyngseneddol ........ 4**

Oireachtas ........ 4

Cynulliad Gogledd Iwerddon ........ 6

**3. Partneriaid allweddol ........ 8**

Adran Materion Tramor Llywodraeth Iwerddon ........ 8

Swyddfa Llywodraeth Cymru yn Nulyn ........ 8

Cyngor Celfyddydau Iwerddon ........ 9

**4. Atodiad 1 – Camau dilynol a awgrymir ........ 11**

Cyffredinol ........ 11

Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol ........ 11

Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig ........ 11

Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith ........ 12

**5. Atodiad 2 – Rhanddeiliaid yr Ymweliad ........ 13**

# 1. Rhagair y Dirprwy Lywydd

Pleser oedd cael arwain dirprwyaeth o'r Senedd i Iwerddon ar ddechrau tymor yr hydref hwn. Deilliodd yr ymweliad o gyfarfod â'r Ceann Comhairle yn ôl ym mis Mawrth, lle bu'n annog cydweithio rhwng y Senedd a'r Oireachtas, ac rwy'n ddiolchgar iddo am hyrwyddo cysylltiadau rhwng Cymru ac Iwerddon ac am roi'n hael o'i amser yn ystod ein cyfnod yn Nulyn. Roedd ffocws yr ymweliad wedi'i wreiddio yng Nghyd-ddatganiad Iwerddon-Cymru a busnes seneddol, ac roeddwn yn falch ein bod wedi gallu trafod rôl bwysig y Pwyllgorau yn y ddwy senedd o ran craffu ar faterion amgylcheddol a dylanwadu arnynt, yn ogystal â manteisio ar y cyfle i glywed am fuddsoddiad canlonogol yn Iwerddon ar gyfer y celfyddydau, chwaraeon a thwristiaeth. Roeddwn i'n falch o gael y cyfle i drafod ein gweithdrefnau seneddol gyda swyddogion yr Oireachtas, yn ogystal â'r diwygio sydd ar ddod yn ein deddfwrfeydd. Mae'r gwaith hwn yn arbennig o berthnasol wrth i ni geisio paratoi ar gyfer y Seithfed Senedd, ac rwy'n obeithiol y gallwn barhau i ddysgu oddi wrth ein gilydd fel deddfwrfeydd ac Aelodau yn hyn o beth.

Arhosodd y ddirprwyaeth yn Nulyn i ymgymryd â gwaith ymgysylltu pwysig a gwerth chweil â rhanddeiliaid allweddol, ac rwy'n gwybod bod eu trafodaethau ar ymgysylltu rhyngwladol, y celfyddydau, a'r gwaith sy'n cael ei wneud ym meysydd ynni adnewyddadwy wedi bod yn arbennig o ddefnyddiol. Yn y cyfamser, manteisiais ar y cyfle i ymweld â Stormont, ymweliad swyddogol cyntaf y Senedd yno ers i fusnes ailddechrau yng Nghynulliad Gogledd Iwerddon, a chefais groeso cynnes gan y Dirprwy Lefarydd Steve Aiken MLA. Bu modd inni gymharu ein profiadau fel Dirprwyon, a thrafod busnes seneddol ac ymgysylltu rhwng y Senedd a Stormont. Fe wnaeth y cyfarfod hwn yn arbennig brofi i mi y gall cymryd rhan fel aelodau mewn rhwydweithiau fel Cymdeithas Seneddol Prydain ac Iwerddon flodeuo i greu perthnasoedd gwaith gwerth chweil gyda chanlyniadau gwerthfawr. Rwy'n gobeithio mai'r ymweliad hwn â Belfast fydd y cyntaf o lawer, ac yn annog Aelodau a Phwyllgorau i ymgysylltu â'n cydweithwyr yn Stormont wrth i dymor y Senedd fynd yn ei flaen.

Rwy'n ddiolchgar i aelodau'r ddirprwyaeth am eu hymrwymiad a'u brwdfrydedd dros gysylltiadau rhwng Cymru ac Iwerddon, ac am arddangos y Senedd a'n busnes seneddol ar ei orau. Y model hwn ar gyfer cynnal ymweliad, sef dirprwyaeth draws-Bwyllgor gyda ffocws thematig, oedd y cyntaf o'i fath a gyflawnwyd fel rhan o Fframwaith Rhyngwladol y Senedd. Bwriedir iddo roi Busnes y Senedd wrth galon gwaith ymgysylltu rhyngwladol, ac rwy'n obeithiol y bydd yr Aelodau'n parhau i weithio yn yr ysbryd hwn ac yn ymgorffori'r canfyddiadau a'r gwersi o'n hamser yn Iwerddon yng ngwaith eu Pwyllgorau.

Mae ein perthynas gyda'n ffrindiau a'n cydweithwyr ar draws Môr Iwerddon mor bwysig ag erioed, a gobeithio y bydd aelodau'n ymuno â mi i gynnal y cysylltiadau cryf hyn.

David F. Rees.

David Rees AS
**Dirprwy Lywydd**

# 2. Cysylltiadau rhyngseneddol

## Oireachtas

**1.** Cyfarfu'r Dirprwy Lywydd â swyddogion o wasanaeth Tai’r Oireachtas i drafod gweithdrefnau seneddol a threfnu busnes seneddol, gyda'r bwriad o gyfrannu arferion da at baratoadau ar gyfer y 7fed Senedd.

**2.** Roedd rhywfaint o ffocws hefyd ar baratoadau ar gyfer ehangu seneddol, gyda nifer y Teachtaí Dála (aelodau Dáil Éireann), yn cynyddu o 160 i 174 yn yr etholiad nesaf. Mae hyn yn dilyn argymhellion gan y Comisiwn Etholiadol, a adroddodd yng ngoleuni cyfrifiad 2022 ac yn unol ag erthygl 16.2.2 o Bunreacht na hÉireann (y cyfansoddiad ysgrifenedig).

**3.** Sylwodd yr Aelodau fod ymatebion Gweinidogion i Gwestiynau Seneddol yn cael eu hamseru, gyda chyfnod o 3 munud yn cael ei neilltuo i ymateb, a gyda chloc y Siambr yn cyfrif eu hamser sy'n weddill. Clywodd y Dirprwy Lywydd hefyd am drefniadaeth busnes[2]. Roedd hyn yn cynnwys trefniadau yn y Dáil ar gyfer Grwpiau Technegol[3] a'u hawl gyfrannol i amser siarad a chwestiynau, yn ogystal â sut gall aelodau ychwanegol arwain at ragor o grwpiau technegol yn y Dáil nesaf.

**4.** Siaradodd swyddogion am y “Fforwm Cyfeillgar i Deuluoedd” a gomisiynwyd gan y Ceann Comhairle a adroddodd yn 2021[4], a'i argymhellion ar bleidleisio ar adegau rhagweladwy ac oriau eistedd sy'n ystyriol o deuluoedd. Disgrifiwyd y system Cwotâu Rhywedd ganddynt hefyd[5] ac, er nad oes system adalw ar waith, esboniodd swyddogion sut caiff swyddi gweigion eu llenwi drwy isetholiadau.

**5.** Clywodd y Dirprwy Lywydd am drefniadau ar gyfer Pwyllgorau yn yr Oireachtas, gan gynnwys Pwyllgorau Arbennig y gellir eu sefydlu i edrych ar un mater, gyda chanlyniadau polisi neu ddeddfwriaethol fel arfer. Clywodd hefyd am Bwyllgor Diwygio'r Dáil, y Pwyllgor dynodedig sy'n cael ei gadeirio gan Ceann

---

[2] Ar hyn o bryd mae'r Dail yn cynnal ei Gyfarfod Llawn ar brynhawniau dydd Mawrth, a dydd Mercher a dydd Iau, gyda busnes yn cael ei ohirio rhwng 8-11pm.
[3] Gellir ffurfio Grwpiau Technegol o aelodau annibynnol neu bartïon llai a bydd ganddynt hawl gyfrannol i Gwestiynau i’r Arweinydd, Cwestiynau â Blaenoriaeth, amser aelodau preifat a threfniadau amser siarad. Mae angen o leiaf pump aelod i ffurfio grŵp.
[4] https://data.oireachtas.ie/ie/oireachtas/parliamentaryBusiness/other/2021-11-02_report-of-the-forum-on-a-family-friendly-and-inclusive-parliament_en.pdf
[5] Ar gyfer yr etholiad nesaf, y cwota yw 40% o ymgeiswyr benywaidd

Comhairle (y Llefarydd), yn ystyried materion gweithdrefnol, a gwneud argymhellion ar sefydlu Pwyllgorau newydd ac Arbennig.

**6.** Yn dilyn ei gydnabyddiaeth swyddogol o'r ddirprwyaeth yn y Cyfarfod Llawn y prynhawn hwnnw, cyfarfu'r Ceann Comhairle â'r Dirprwy Lywydd ar gyfer cyfarfod dwyochrog. Yn y cyfarfod hwn, ailadroddodd y Ceann Comhairle ei gefnogaeth i gydweithio parhaus rhwng y ddwy senedd, ac yn benodol rhwng Pwyllgorau. Ategodd y Dirprwy Lywydd y teimladau hyn, a thynnodd sylw at y croeso cynnes a gafwyd ar yr ymweliad hwn, a'r cyfarfodydd cynhyrchiol gyda Phwyllgorau, fel enghraifft o'r cydweithrediad hwnnw.

**Pwyllgor yr Amgylchedd a Newid Hinsawdd**

**7.** Cyfarfu aelodau'r Pwyllgor â dau Teachta Dála, Alan Farrell a Darren O'Rourke.

**8.** Trafododd yr Aelodau Gynllun Gweithredu ar yr Hinsawdd Iwerddon, dull pontio ynni'r ddwy wlad i ynni adnewyddadwy, allforion ynni, rôl tanwydd ffosil, cynlluniau ehangu meysydd awyr a datblygiadau allweddol ym maes tanwydd hedfan cynaliadwy, ac allforion amaeth a bwydydd amaethyddol.

**9.** O ran ynni adnewyddadwy, trafododd yr Aelodau yr elfennau cyffredin sy'n gysylltiedig â bod yng ngogledd orllewin Ewrop, gan gynnwys dibyniaeth ar wyntoedd Gogledd yr Iwerydd, a seilwaith a rennir, fel rhyng-gysylltwyr ynni. Buont yn sôn am gynlluniau amrywiol ar gyfer ehangu datblygiad ynni solar a gwynt ar y tir ac ar y môr gan gynnwys yn y moroedd rhwng Cymru ac Iwerddon, a phwysigrwydd cydbwyso hyn ag ystyriaethau amgylcheddol, gan gynnwys bioamrywiaeth.

**10.** Bu'r aelodau'n cyfnewid safbwyntiau ar arfer gorau a threfniadau craffu effeithiol, gan gynnwys heriau o ran amserlennu, y dull o graffu'n flynyddol a dylanwad pwyllgorau wrth lunio polisi. Esboniodd y Teachtaí Dála drefniadau yn yr Oireachtas lle mae pob pwyllgor yn craffu ar y Cynllun Gweithredu ar yr Hinsawdd a phob adran o'r llywodraeth yn ymddangos gerbron y Pwyllgor ar gyfer sesiynau craffu. Roeddent yn teimlo bod hyn yn rhoi trosolwg cryf i'r Oireachtas a chyfleoedd i lunio cynlluniau ar gyfer y dyfodol.

**11.** Buont hefyd yn sôn am wahaniaethau a thebygrwydd yn y dull a ddefnyddiwyd yng Nghymru ac Iwerddon i gynllunio (gan gynnwys ar gyfer capasiti porthladdoedd), deddfwriaeth, ac effaith newidiadau Gweinidogol.

**Pwyllgor Twristiaeth, Diwylliant, y Celfyddydau, Chwaraeon a'r Cyfryngau**

**12.** Cyfarfu aelodau'r pwyllgor â'r Seneddwyr Fintan Warfield a Malcolm Byrne.

**13.** Cytunodd yr Aelodau fod cefnogaeth drawsbleidiol i bwysigrwydd y celfyddydau a diwylliant o ran hunaniaeth y ddwy wlad.

**14.** Buont yn trafod yr heriau sy'n wynebu artistiaid teithiol ar ôl Brexit, cyllidebau'r sector diwylliant, llwybrau i artistiaid a gwahanol ddulliau o ddefnyddio diwylliant fel pŵer meddal.

**15.** O ran cyllidebau sector, disgrifiodd yr Aelodau fuddsoddiad ar gyfer chwaraeon a hamdden, celfyddydau cymunedol a chwaraeon a thwristiaeth. Roedd hyn yn cynnwys trafodaethau manwl ar gynllun peilot incwm sylfaenol cyffredinol Iwerddon i artistiaid, mwy o gyllid i chwaraeon ers ei llwyddiant yn y Gemau Olympaidd, cymariaethau cyllido rhwng siroedd cyfagos a chyllid yr Undeb Ewropeaidd.

**16.** Siaradodd Aelodau'r Senedd am ganfyddiadau ymchwiliad y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol i Ddiwylliant a'r berthynas newydd â'r Undeb Ewropeaidd, a rhannu tystiolaeth o'r effaith ar symudiadau trawsffiniol i artistiaid o Gymru ac Iwerddon. Bu'r Aelodau'n trafod y sector yng Nghymru yn colli mynediad at raglenni cyllid yr Undeb Ewropeaidd a thoriadau yn y gyllideb ddomestig.

## Cynulliad Gogledd Iwerddon

**17.** Ddydd Gwener 20 Medi, teithiodd y Dirprwy Lywydd i Belfast i gwrdd â'r Dirprwy Lefarydd Steve Aiken ACD. Hwn oedd ymweliad swyddogol cyntaf y Senedd â Stormont ers i'r Cynulliad ailddechrau, a'r cyfarfod dwyochrog cyntaf rhwng y Dirprwy Lywydd a'r Dirprwy Lefarydd ers ethol Dr Steve Aiken i'r rôl yn 2024.

**18.** Wrth i'r Senedd edrych tuag at ei baratoadau ar gyfer y 7$^{fed}$ Senedd, roedd y cyfarfod hefyd yn gyfle i ddysgu am y trefniadau yn Swyddfa'r Llefarydd ynghylch Dirprwy Lefarwyr a'u rolau. Siaradodd y Dirprwyon am ddosrannu eu dyletswyddau, gan gynnwys pleidleisio, a bod y Dirprwy Lefarwyr yn Stormont yn parhau i eistedd ar Bwyllgorau tra byddant yn y swydd. Buont hefyd yn trafod y cymorth sydd ar gael i Ddirprwy Lefarwyr drwy Swyddfeydd Preifat.

**19.** Bu'r Dirprwy Lywydd a'r Dirprwy Lefarydd hefyd yn trafod busnes seneddol cyfredol y ddwy ddeddfwrfa, gan gynnwys diwygio, ymgysylltu â'r Undeb Ewropeaidd, a gwaith ar lygredd amaethyddol. O ran yr olaf o'r rhain,

awgrymodd y Dirprwy Lywydd, yn dilyn y cyfarfod, y gallai fod lle yn y dyfodol i archwilio gwaith traws-bwyllgor rhwng y Senedd a'r Cynulliad ar y pwnc penodol hwn. Siaradodd y Dirprwy Lywydd hefyd am brofiadau aelodau o Gynulliad Partneriaeth Seneddol y Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd.

**20.** Ailadroddodd y Dirprwy Lefarydd a'r Dirprwy Lywydd eu cefnogaeth i ymgysylltu pellach ddigwydd rhwng y Cynulliad a'r Senedd, yn enwedig drwy Bwyllgorau, rwydweithiau Seneddol fel y Cynulliad Seneddol Prydeinig-Gwyddelig (BIPA) a thu hwnt i'r rwydweithiau hynny.

# 3. Partneriaid allweddol

## Adran Materion Tramor Llywodraeth Iwerddon

**21.** Cyfarfu aelodau â swyddogion o Adran Materion Tramor Llywodraeth Iwerddon. Canolbwyntiodd y trafodaethau ar gysylltiadau Cymru-Iwerddon, poblogaethau ar wasgar a threfniadau ar ôl Brexit rhwng y Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd.

**22.** Rhoddodd swyddogion yr wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am Gyd-ddatganiad a Chynllun Gweithredu ar y Cyd Iwerddon-Cymru 2021-25 a chydweithrediad y tu hwnt i 2025, gan gynnwys meysydd o'r cyd-ddatganiad sy'n gweithio'n dda a meysydd lle mae angen mwy o ffocws, a gwerth Fforwm Cymru-Iwerddon.

**23.** O ran poblogaethau ar wasgar, disgrifiodd swyddogion waith a wnaed i ganfod maint poblogaeth ar wasgar Iwerddon, fel ffynonellau gwybodaeth allweddol a ddefnyddir ar gyfer mapio poblogaethau ar wasgar a chyllid ar gyfer ymgysylltu. Tynnwyd sylw hefyd at rwydweithiau pwysig, fel Grŵp Cyfeillion Iwerddon cyngres yr Unol Daleithiau a'r Rhwydwaith Gwyddelig Byd-eang.

**24.** Cafwyd trafodaeth wedyn ar fetrigau pŵer meddal a'r defnydd o ddangosyddion perfformiad allweddol mewn cysylltiadau rhyngwladol.

**25.** O ran Brexit, cytunodd y rhai a oedd yn bresennol ar bwysigrwydd gweithredu'r Cytundeb Ymadael, gan gynnwys Protocol Gogledd Iwerddon a Fframwaith Windsor. Buont yn trafod materion yn ymwneud â mynediad i'r farchnad yng Ngogledd Iwerddon a sut cynrychiolir Cymru yn strwythurau llywodraethu'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu, gan gynnwys yn y Cynulliad Partneriaeth Seneddol.

## Swyddfa Llywodraeth Cymru yn Nulyn

**26.** Teithiodd aelodau i Lysgenhadaeth Prydain i gwrdd ag aelodau o dîm swyddfa Llywodraeth Cymru yn Nulyn, sydd wedi eu cydleoli yno.

**27.** Cafodd yr aelodau ddiweddariad gan y tîm am ei weithgareddau i hyrwyddo a meithrin cysylltiadau rhwng Cymru ac Iwerddon, a thrafodaethau ar gydweithrediad rhwng Cymru ac Iwerddon y tu hwnt i 2025 pan ddaw'r cyd-ddatganiad presennol i ben.

**28.** Ymunodd cynrychiolwyr o brosiectau Greenlink Interconnector a MaresConnect Interconnector â'r aelodau, sy’n darparu'r rhyng-gysylltwyr trydan tanfor a thanddaearol sy'n cysylltu'r marchnadoedd pŵer yn Iwerddon a Phrydain Fawr, rhwng Wexford a Sir Benfro, a rhwng Bodelwyddan ac Iwerddon, yn y drefn honno.

**29.** Rhoddodd y cynrychiolwyr gyflwyniadau manwl yn dangos ffactorau allweddol yn natblygiadau'r seilwaith, gan gynnwys y prosesau cynllunio, ystyriaethau amgylcheddol a gweithredol a'r gallu i gynhyrchu ynni.

**30.** Ymunodd cynrychiolydd o Siambr Fasnach Iwerddon Prydain ("y Siambr") ag aelodau, a ddisgrifiodd flaenoriaethau'r siambrau fel bwyd-amaeth, diwylliant, celf, chwaraeon, twristiaeth, ynni, addysg uwch a seilwaith, ymysg pethau eraill. Disgrifiwyd cydweithio agos gyda Llywodraeth Cymru, gan nodi cefnogaeth y siambr i Gyd-ddatganiad Cymru-Iwerddon.

**31.** Eglurodd y Siambr bwysigrwydd Cymru i allforwyr o Iwerddon, a dilynodd trafodaeth ar weithredu Model Gweithredu Targedau Ffiniau'r Deyrnas Unedig (BTOM), Safleoedd Rheolaethau'r Ffin Cymru a llif masnach ar ôl Brexit. Cytunodd y rhai a oedd yn bresennol ar bwysigrwydd cysylltiadau gwell a chadarnhaol rhwng y Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd, gan gynnwys sicrhau cytundeb milfeddygol yn y dyfodol.

### Cyngor Celfyddydau Iwerddon

**32.** Ymwelodd yr aelodau â swyddfeydd Cyngor Celfyddydau Iwerddon, lle soniwyd am agwedd Iwerddon tuag at ddiwylliant a'r celfyddydau, a'i waith gyda phartneriaid yn y Deyrnas Unedig a Chymru. Yn hyn o beth, disgrifiwyd ‘meddylfryd pum cenedl’ ganddynt.

**33.** Dilynodd trafodaethau ar systemau llywodraeth leol Cymru ac Iwerddon o ran cefnogi'r celfyddydau a diwylliant, gan gynnwys rôl awdurdodau lleol a'u perthynas â llywodraeth ganolog.

**34.** Cafodd Brexit ei ddisgrifio fel ‘siom enfawr’ a ‘thrychineb’ i bawb, gan fod Iwerddon wedi gweld y Deyrnas Unedig fel aelod-wladwriaeth allweddol dros y celfyddydau cyn iddi ymadael â’r Undeb. Disgrifiodd staff yr effaith ar y sector yn Iwerddon, gan gynnwys bod hynny wedi ‘effeithio’n ddifrifol’ ar ei allu i weithio gyda Chymru. Cafwyd trafodaeth yn dilyn hynny ynghylch ymchwiliad y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol i Ddiwylliant a'r berthynas newydd â’r Undeb Ewropeaidd.

**35.** Siaradodd Cyngor Celfyddydau Iwerddon yn fanwl am y Cyd-ddatganiad rhwng Cymru ac Iwerddon, a chytunodd â'r awgrym gan Aelodau mai ei benodau ar y celfyddydau a diwylliant yw'r rhai mwyaf llwyddiannus.

**36.** Trodd y trafodaethau at gyllid ar gyfer y celfyddydau a diwylliant, lle amlinellodd staff y dirwedd gyllido yn Iwerddon yn ogystal â’r cyllid a gafwyd gan yr Undeb Ewropeaidd. Rhannodd yr Aelodau dystiolaeth a phrofiad o effaith a chanlyniadau toriadau yn y gyllideb yng Nghymru.

**37.** Holodd yr aelodau am bwysigrwydd iaith i ddiwylliant, a chafwyd trafodaeth ar bwysigrwydd y Gymraeg a'r Wyddeleg a phrofiadau ar y cyd. Roedd cytundeb cryf ar werth prosiectau Cymraeg a Gwyddeleg ar y cyd, a siaradodd yr Aelodau am dystiolaeth a gafwyd yn ystod ymchwiliad y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol i gysylltiadau rhwng Cymru ac Iwerddon.

**38.** O ran cryfhau cysylltiadau rhwng Cymru ac Iwerddon, soniodd pawb am bwysigrwydd cydweithio rhwng sefydliadau a’u rôl wrth ddod â chymunedau ynghyd, a rhwydweithiau a chydweithio yn fwy cyffredinol. Mae Cyngor Celfyddydau Iwerddon yn awyddus i gynnal deialog gyda’r Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, a dywedodd y byddai'n croesawu cyfarfodydd wyneb yn wyneb blynyddol â'r Aelodau.

# 4. Atodiad 1 – Camau dilynol a awgrymir

Yn ystod yr ymweliad, awgrymodd aelodau'r ddirprwyaeth y camau dilynol isod i'w hystyried yn y dyfodol. Gwahoddir yr Aelodau i ystyried pa gamau i'w cymryd:

**Cyffredinol**

1. Cwmpasu'r syniad o sefydlu Grŵp Cyfeillion Iwerddon yn y Senedd.
2. Archwilio'r posibilrwydd o ymweliadau blynyddol yn y dyfodol, fel yr awgrymwyd yn wreiddiol gan y Ceann Comhairle (Llefarydd) wrth ymweld â'r Senedd.

**Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol**

3. Parhau i fonitro adnewyddu Cyd-ddatganiad Cymru-Iwerddon a'r Cynllun Gweithredu ar y Cyd.
4. Ystyried craffu dilynol ar yr ymchwiliad i gysylltiadau rhwng Cymru ac Iwerddon, gan gynnwys ailedrych ar argymhellion y Pwyllgor ac ymateb Llywodraeth Cymru.
5. Ffurfioli cysylltiadau â Chadeirydd Pwyllgor yr Oireachtas ar Dwristiaeth, Diwylliant, y Celfyddydau, Chwaraeon a'r Cyfryngau, gan gynnwys archwilio datblygu memorandwm cyd-ddealltwriaeth, neu debyg.
6. Trefnu cyfarfodydd tymhorol rhwng Cadeiryddion y pwyllgorau.

**Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig**

7. Swyddogion i wneud ymchwil manwl ar fasnach rhwng Cymru ac Iwerddon.
8. Cyhoeddi adroddiad ar Fodel Gweithredu Targed Ffiniau (BTOM) y Deyrnas Unedig sy'n manylu ar drefniadau masnach ar ôl Brexit rhwng Cymru ac ynys Iwerddon.
9. Cynnwys masnach rhwng Cymru ac Iwerddon fel maes ffocws mewn sesiynau craffu cyffredinol gyda Llywodraeth Cymru.

10. Archwilio cyfarfodydd dilynol gyda Siambr Fasnach Prydain-Iwerddon a rhanddeiliaid allweddol eraill, fel Awdurdod Diogelwch Bwyd Iwerddon a Swyddfa Datblygu Morol Iwerddon (IMDO).

11. Ystyried ymgorffori tystiolaeth gan bartneriaid allweddol yn Iwerddon i waith ymchwilio, yn unol â dull y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol.

## Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith

12. Gofyn am fwy o wybodaeth am ddull yr Oireachtas o graffu traws-seneddol ar y Cynllun Gweithredu ar yr Hinsawdd.

13. Archwilio hyn fel model i gryfhau’r oruchwyliaeth ar gynlluniau perthnasol Llywodraeth Cymru, a chynyddu’r cyfleoedd i’w llunio.

14. Dosbarthu'r cyflwyniadau gan brosiectau rhyng-gysylltydd Greenlink a MaresConnect gydag aelodau'r Pwyllgor ar ôl iddynt ddod i law, er gwybodaeth.

# 5. Atodiad 2 – Rhanddeiliaid yr Ymweliad

Tai'r Oireachtas

- An Ceann Comhairle (Llefarydd), y Dirprwy Seán Ó Fearghaíl TD
- Y Dirprwy Darren O'Rourke TD (Sinn Féin) – Pwyllgor yr Amgylchedd a Gweithredu ar yr Hinsawdd
- Y Dirprwy Alan Farrell TD (Fine Gael) – Pwyllgor yr Amgylchedd a Gweithredu ar yr Hinsawdd
- Y Seneddwr Malcolm Byrne (Fine Gael) – Leas-Chathaoirleach (Is-Gadeirydd) y Pwyllgor Twristiaeth, Diwylliant, Celfyddydau, Chwaraeon a'r Cyfryngau
- Y Seneddwr Fintan Warfield (Sinn Féin) – Y Pwyllgor Twristiaeth, Diwylliant, Celfyddydau, Chwaraeon a'r Cyfryngau
- Y Dirprwy Marc Ó Cathasaigh TD (Y Blaid Werdd) – Leas-Chathaoirleach (Is-gadeirydd) y Pwyllgor Diogelu Cymdeithasol, Datblygu Cymunedol a Gwledig a'r Ynysoedd
- Y Seneddwr Alice-Mary Higgins (Annibynnol)
- Swyddogion o Ysgrifenyddiaeth Gwasanaethau a Phwyllgorau Tai'r Oireachtas

Cynulliad Gogledd Iwerddon

- Dr Steve Aiken ACD (Aelod o'r Cynulliad Deddfwriaethol), Dirprwy Lefarydd

Rhanddeiliaid y Pwyllgorau

- Adran Materion Tramor, Llywodraeth Iwerddon
- Swyddfa Llywodraeth Cymru yn Nulyn
- Timau prosiect MaresConnect Interconnector a Greenlink Interconnector
- Siambr Fasnach Prydain-Iwerddon
- Cyngor Celfyddydau Iwerddon